# CYFARFOD AMGYLCHEDD AC EIDDO - COFNODION

**Dydd Mawrth 9fed Medi 2025 - 7.30yh Neuadd Goffa**

**Presennol:**

**Ward Braint**

Bethan Williams

Alun Jones

Gwynfor Parry

**Ward Gwyngyll**

Medwyn Roberts (Cadeirydd)

Gareth Cemlyn Jones

**Clwb Bowlio:**

**Clwb Pêl droed Iau:**

**Clwb Pêl droed Hyn:**

**Cymdeithas Chwaraeon:**

**Y Gorlan:**

**Rhandiroedd:**

Gillian Morris **(Clerc)**

| **1.0** | **Ymddiheuriadau** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
|---|---|---|---|
| | Anthony Williams, Ian Roberts, Stephen Edwards, Wil Parry | | |
| **2.0** | **Datgan Diddordeb** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| | Dim | | |
| **3.0** | **Camau Gweithredu a ddygwyd ymlaen o gyfarfodydd blaenorol** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 3.1 | Cytundebau<br>• Disgwyl cytundebau Y Clwb Bowlio a Maes Eilian gael eu harwyddo.. | | |
| **4.0** | **Cyflwyno a chadarnhau cofnodion Cyfarfod Amgylchedd ac Eiddo 04.03.2025** | **Gweithredu** | **Erbyn** |
| 4.1 | Bethan Williams yn cynnig bod y cofnodion yn gywir ac Alun Jones yn eilio. | | |

| 5.0 | Trafod | Gweithredu | Erbyn |
|---|---|---|---|
| 5.1 | **Is-gadeirydd**<br>• Eitem ar gyfer y cyfarfod nesaf. | | |
| 5.2 | **Clwb Bowlio -**<br>• MR yn llongyfarch y Clwb ar eu llwyddiant dros y flwyddyn.<br>• Adroddiad papur newydd rhagorol yn son am hanes, llwyddiant a dyfodol y clwb .<br>• AJ yn bryderus bod pêl droed o'r safle 5 bob ochr yn beryglus ac eisiau i'r Cyngor Bro gymeryd hyn i ystyrieth. | | |
| 5.3 | **Grant Gofal Chwarae Plant -**<br>• Clerc wedi ceisio am grant o £10,000 ar gyfer ardal y gors. | | |
| 5.4 | **Y Gors-**<br>• Diweddariad gan Bethan ynglyn ac Asesiad Effaith Iechyd sydd wedi cael ei wneud ar gyfer yr ardal.<br>• Cyfarfod cyhoesddus arall angen ei drefnu.<br>• MR wedi cael cyllid Balchder Bro i gael baneri a byrddau dehongli ar y stryd fawr.<br>• Gwlau blodau rhwng y gors a'r maes chwarae am gael newydd wedd, disgwyl ymateb gan gontractwyr lleol.<br>• Siglen wedi torri, Clerc i ofyn I'r gofalwr ei thynnu lawr.<br>• Clo ar y giat wedi torri, Clerc i archebu clo newydd.<br>• Clerc i gysylltu gyda Norman Jones i roi hylif lladd chwyn ar yr ardal chwarae.<br>• Clerc i gysylltu gyda AE & At Lewis i glirio y mwsog ar y tarmac. | Clerc<br>Clerc<br>Clerc<br>Clerc | MFAPH<br>MFAPH<br>MFAPH<br>MFAPH |
| 5.5 | **Elw Peiriant Parcio y Gors-**<br>• Trafodaeth ynglŷn a ble mae elw yr arian o'r peiriant parcio yn mynd.<br>• Permit parcio wedi ei drafod, penderfynwyd i gynnig £300 y flwyddyn y tocyn. | Clerc | Medi 2025 |
| 5.6 | **Arolwg Traffig**<br>• Arolwg traffig yn cael ei wneud dydd Mawrth 16eg Medi rhwng 7yb a 6yh. | | |
| 5.7 | **Maes Parcio Tŷ'n Rhos** | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | • Cais i gau y giât yn y maes parcio wedi ein cyrraedd gan un o’r trigolion. Dim gwrthwynebiad i wneud hyn gan aelodau y pwyllgor. | | |
| **6.0** | **Dyddiad Cyfarfod Nesaf** | | |
| | **Cynhelir y cyfarfod nesaf: i'w benderfynu.** | | |
| **** DIOLCH YN FAWR IAWN I CHI AM FYNYCHU **** | | | |